Golygfa Naw

Mae'r olygfa hon yn llawn o egni. Katy yn sefyll ar ganol y llwyfan yn gwneud 'stretches'

Mam Chloe Ar y bore pan ges i wybod be' oedd wedi digwydd, ro'n i'n gwneud fy 'stretches' fel dwi'n neud bob bore pan glywais gnoc ar y drws. Doeddwn i ddim yn disgwyl neb. Mi es i ateb y drws. (Rosie'n cerdded ar y llwyfan). Oh helo Rosie, ti'n iawn? Tyrd i mewn, mae'n oer. Sori am y llanast – 'dw'i ddim wedi gwneud y gwaith tŷ eto. Wyt tisio diod?

Rosie Na…

Mam Chloe (yn ei hanwybyddu) Mae gen i de, coffi, coke, diet coke, coke zero, neu os wyt tisio rhywbeth poeth ...mae gen i ......

Rosie (yn trio torri ar draws) Mrs Downes, dw'i di dŵad yma i siarad am Chloe……

Mam Chloe Siocled poeth. Mae gen i hyd yn oed de gwyrdd efo afal pîn. Neu skinny latte - o edrych arna ti i fyswn yn deud mai skinny latte fysa ti'n licio....

Rosie Plîs gwrandewch arna'i Mrs Downes.

Mam Chloe Be 'sgen ti i ddeud wrtha'i am Chloe felly?

Rosie Dydi hi ddim rhy dda ar hyn o bryd a deud y gwir

Mam Chloe (Yn ei hanwybyddu) Dydw'i ddim yn licio gofyn gormod o gwestiynau i Chloe, dwi'm isio iddi hi deimlo mod i'n busnesu.

Rosie Mrs Downes?

Mam Chloe Blah blah blah blah blah blah

Rosie Plîs?

Katy Blah blah blah blah blah

Rosie- Mae Chloe wedi cael ei threisio! (mam Chloe yn stopio siarad ac yn sefyll yn stond)

Katy Be? Be’ ti'n feddwl mae hi 'di cael ei threisio? Gan pwy?

Rosie Ei chariad

Katy Cariad? Does ganddi hi ddim cariad.

Rosie Dwi’ meddwl bod well i mi fynd

Katy Doeddwn i’m yn gwybod bod ganddi hi gariad.... fi ydi ei mam hi, ‘dw'i fod i wybod y pethau ‘ma.. dw’i fod i’w hamddiffyn hi rhag pethau fel hyn....fy mabi bach i...wedi cael ei threisio. Rhaid i mi ffeindio Chloe.